

Adroddiad Diwylliant a Thlodi Gan y Farwnes Andrews – Ymateb Gan Lywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Tachwedd 2014

ADRODDIAD Y FARWNES ANDREWS, *DIWYLLIANT A THLODI* – YMATEB LLYWODRAETH CYMRU

Cynnwys

Rhagair gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Ken Skates AC	2
Cyflwyniad.....	3
Prif Themâu.....	3
Partneriaid Cenedlaethol a Lleol	5
Y Ffordd o Gyflawni.....	5
Yr Ardaloedd Arloesi	5
Rôl Llywodraeth Cymru	6
Y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol.....	6
Casgliadau	6
Atodiad A: Partneriaid Cyflawni Arweiniol – Cynnydd ac Ymrwymadau	7
Llywodraeth Cymru: Cadw	7
Llywodraeth Cymru: Llywodraeth Lleol a Chymunedau	8
Llywodraeth Cymru: CyMAL	9
Llywodraeth Cymru: Addysg a Sgiliau	10
Llywodraeth Cymru: Trafnidiaeth	13
Cyngor Celfyddydau Cymru.....	14
Llyfrgell Genedlaethol Cymru.....	14
Amgueddfa Cymru.....	15
Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol	17
Yr Ardaloedd Arloesi	18
Rhanddeiliaid Eraill gan gynnwys Llywodraeth Leol	19
Atodiad B: Rhestr o Argymhellion a Phartneriaid Cyflawni Arweiniol	20

RHAGAIR GAN Y DIRPRWY WEINIDOG DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH, KEN SKATES AS

Cyhoeddwyd adroddiad *Diwylliant a Thlodi* y Farwnes Kay Andrews OBE ym mis Mawrth 2014. Yn yr adroddiad, sy'n torri tir newydd, mae'r Farwnes Andrews yn cyflwyno dadl gref y dylai Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, sefydliadau diwylliannol, cyrff cymunedol ac ysgolion wneud ymdrech lew i gydweithio'n fwy effeithiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr hyn y gallai gweithgareddau diwylliannol ei wneud i bobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.



Mae'r adroddiad yn arbennig o rymus am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'n cyflwyno dadl, a honno'n ddadl sy'n argyhoeddi, ynghylch y buddion a all ddod yn sgil cyfranogi ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Gall hyn hybu sgiliau, cynyddu hunanhyder, a rhoi hwb i uchelgeisiau a dyheadau pobl. Hefyd, ac mae hyn yr un mor bwysig, mae'r adroddiad yn dweud y dylai diwylliant fod yn agored ac yn hygyrch i bawb; mae'n fater o egwyddor a chyfiawnder cymdeithasol. Nid dim ond pobl sy'n ennill arian da neu bobl o gymunedau penodol ddylai allu cymryd rhan yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Dylent fod yn agored i bawb.

Trechu tlodi yw prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru ac rydym yn falch o'n hymrwymiad i atal allgáu cymdeithasol a chefnogi aelodau mwyaf difreintiedig ein cymunedau. Mae Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig Llywodraeth Cymru, yr ymgynghorir arni ar hyn o bryd, yn cydnabod y rôl hanfodol y gall sefydliadau diwylliannol ei chwarae i drechu tlodi.

Mae celfyddydau, diwylliant a threftadaeth Cymru yn rhan annatod o fywyd ein cenedl, ac mae'n hollbwysig i werthoedd y llywodraeth hon nad yw aelodau mwyaf difreintiedig ein cymunedau yn cael eu hallgáu.

Rwy'n cymeradwyo ac yn cefnogi adroddiad y Farwnes Andrews ac rwy'n falch o allu nodi sut y byddwn yn mynd ati i roi ei hargymhellion ar waith, yn ogystal â sôn am y cynnydd yr ydym eisoes wedi ei wneud.

Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r fframwaith y mae argymhellion y Farwnes Andrews yn ei ddarparu i barhau i weithio i brif-ffrydio mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ar gyfer cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Cyflwyniad

1. Yr egwyddor sy'n sail i adroddiad y Farwnes Andrews, *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* yw: y dylai buddion a manteision mynediad at yr holl ffurfiau ar ddiwylliant, a chyfranogiad ynddynt, fod ar gael i bawb, ac y dylid gwneud ymdrech benodol i sicrhau bod y bobl yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hyn. Yr hyn sy'n gyrru'r adroddiad, felly, yw prif-ffrydio – a hynny mewn dwy ffordd:

- sicrhau bod ffocws ar gymunedau difreintiedig yn rhan annatod o'r ffordd y mae cyrff, cyfleusterau a gwasanaethau yn ymwneud â dinasyddion; a
- sicrhau bod cyfleoedd celfyddydol, diwylliannol a threftadol yn rhan annatod o'r hyn a gynigir mewn meysydd polisi eraill megis rhaglenni ar gyfer ysgolion, y teulu, adfywio a gwirfoddoli.

2. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor hon ac mae wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â rhaglen o waith i'w chyflawni.

Prif Themâu

3. Mae 33 argymhelliad yn yr adroddiad Diwylliant a Thlodi. Maent yn rhai eang a thrawsbynciol eu natur. O ran eu cyflawni, gellir eu trefnu yn ôl thema, fel a nodir isod. Mae rhai argymhellion yn berthnasol i fwy nag un thema.

Argymhellion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

Cyrraedd y gymuned: egwyddorion – y ffordd y mae cyrff diwylliannol yn ymwneud â phobl. Argymhellion 1, 4, 5, 23.

Mae'r pedwar argymhelliad hyn yn herio cyrff celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i edrych ar eu hymagwedd tuag at weithio gyda chymunedau a sicrhau bod eu sefydliadau'n agored.

Cyrraedd y gymuned: cydweithio a chydlynu – y cysylltiadau rhwng cyrff diwylliannol a Chymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf. Argymhellion 6, 7, 8, 10, 12.

Mae'r pum argymhelliad hyn yn pennu ffyrdd y gellid gwella cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth rhwng ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chyrff diwylliannol - a'r gefnogaeth i weithgareddau diwylliannol yn yr ardaloedd hynny.

Cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol – cyd-ddefnyddio a mentrau ar y cyd. Argymhellion 3, 9, 26, 27.

Mae'r pedwar argymhelliad hyn yn canolbwyntio ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau mewn cymunedau lleol, ac yn annog cydweithio ar draws ffiniau daearyddol ac ar draws sectorau.

Argymhellion sy'n Canolbwyntio ar Addysg a Sgiliau

Gweithio'n ddi-fwlch a phrif-ffrydio – integreiddio cyfleoedd ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i mewn i raglenni a gweithgareddau addysgol sy'n bodoli eisoes.

Argymhellion 11, 12, 14, 15, 16, 17, 18.

Mae'r saith argymhelliad hyn yn pwysleisio nifer o raglenni a gweithgareddau addysgol sy'n bodoli eisoes a allai gynnwys y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth fel ffordd o gefnogi dysgu.

Deunyddiau dysgu a hyfforddiant – datblygu deunyddiau sy'n helpu i wneud y defnydd gorau o gyfleoedd ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth
Argymhellion 8, 20, 21, 24

Mae'r argymhellion hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu deunyddiau dysgu ar gyfer athrawon ac ar gyfer cymunedau.

Mentrau Ymgysylltu a Chyfranogi – datblygu rhaglenni newydd
Argymhellion 19, 22, 25

Mae'r tri argymhelliad hyn yn pennu tri maes y gellid datblygu rhaglenni newydd ynddynt i hyrwyddo ymwneud ac ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant.

Argymhellion o ran Fframweithiau Strategol a Seilwaith

Fframweithiau strategol – sicrhau bod polisiau a strwythurau'n cefnogi'r gwaith o gyflawni

Argymhellion 28, 29, 33

Mae'r argymhellion hyn yn canolbwyntio ar ymagwedd strategol Llywodraeth Cymru tuag at wella a chynyddu effaith sector y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ar amcanion polisi ehangach.

Sail o dystiolaeth a rhannu gwybodaeth – datblygu rhwydweithiau dysgu
Argymhellion 30, 31, 32

Mae'r tri argymhelliad hyn yn cynnig rhwydweithiau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a dysgu yn cael eu rhannu ar draws sefydliadau diwylliannol allweddol.

Goresgyn rhwystrau strwythurol – trafndiaeth.
Argymhelliad 2.

Mae hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod angen mynd i'r afael â rhwystrau o ran trafndiaeth, er mwyn galluogi pobl o ardaloedd difreintiedig i ymweld â safleoedd diwylliannol.

4. Mae Atodiad A yn nodi'r camau sydd wedi'u cymryd hyd yn hyn, a'r camau pellach y bwriedir eu cymryd, gan bob corff arweiniol, i roi argymhellion yr adroddiad ar waith. Ceir rhestr lawn o 33 argymhelliad y Farwnes Andrews yn Atodiad B.

Partneriaid Cenedlaethol a Lleol

5. Yn genedlaethol, mae partneriaid Llywodraeth Cymru yn yr ymdrechion hyn yn cynnwys y sefydliadau diwylliannol cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Yn lleol, mae partneriaid yn cynnwys awdurdodau lleol, clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, sefydliadau y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth lleol, a chyrff cymunedol eraill.

Y Ffordd o Gyflawni

6. Prif ffocws adroddiad Kay Andrews yw dod a chyrff y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ynghyd er mwyn iddynt gael mwy o effaith mewn cymunedau difreintiedig. I fod yn werth chweil, mae angen gwneud hyn o fewn y cymunedau eu hunain, gan weithio mewn partneriaeth ag arweinwyr ac asiantaethau lleol. Er mwyn cyflawni canlyniadau yn effeithiol, mae angen gwneud hyn ar y cyd â gwaith i hyrwyddo dysgu ac arfer gorau. Felly, mae angen bwrw ymlaen â gweithgarwch lleol o fewn fframwaith cefnogi cenedlaethol sy'n hwyluso'r gwaith. Bydd y broses o roi argymhellion yr adroddiad Diwylliant a Thlodi ar waith yn cynnwys gweithgarwch ar y cyd rhwng y lefel genedlaethol a'r lefel leol.

7. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr amgylchedd ariannol cyfyng y mae pawb yn gweithio ynddo ar hyn o bryd. Mae cydweithio agosach rhwng cyrff ar y lefel leol, a rhwng sefydliadau ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol, yn gyfle i wneud cynnydd tuag at wireddu gweledigaeth yr adroddiad Diwylliant a Thlodi mewn ffyrdd cynaliadwy, er gwaetha'r pwysau ariannol.

8. Yn realistig, nid yw sicrhau mwy o gydweithio rhwng sefydliadau yn rhywbeth y gellir ei gyflawni ym mhob rhan o Gymru ar yr un pryd. Bydd angen ymdrech i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio, a dysgu gwersi, cyn i'r cysyniad gael ei ledaenu.

Yr Ardaloedd Arloesi

9. Y ffordd arfaethedig o fynd ati i gyflawni, felly, yw pennu nifer fechan o Ardaloedd Arloesi ledled Cymru lle gall y sefydliadau cenedlaethol weithio gydag arweinwyr lleol i wireddu gweledigaeth graidd yr adroddiad. Bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid cyflawni cenedlaethol yn penderfynu ar y ffordd ymlaen ar y cyd a thrwy drafodaethau â'r Ardaloedd Arloesi. Fel rhan o hyn, caiff fframwaith cefnogi cenedlaethol ei ddatblygu y bydd yr Ardaloedd Arloesi yn gallu manteisio arno. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen genedlaethol o ymchwil a gwerthuso.

10. Mae gweithdai ymgysylltu wedi'u cynnal gyda nifer o ardaloedd arloesi posib, ac ynddynt mynegwyd cefnogaeth i'r egwyddorion a'r fethodoleg arfaethedig. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i drafod gyda'r ardaloedd arloesi arfaethedig dros y misoedd i ddod, gyda'r bwriad o'u gweld yn dechrau'n ffurfiol ym mis Ebrill 2015.

Rôl Llywodraeth Cymru

11. Wrth weithredu'r adroddiad Diwylliant a Thlodi, bydd Llywodraeth Cymru'n ffocysu ar:

- fwrw ymlaen â'r argymhellion sy'n cynnwys Cymru gyfan (hy. y rhai nad ydynt yn canolbwyntio ar un ardal benodol);
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ffordd newydd o weithio yn yr Ardaloedd Arloesi;
- sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn yr Ardaloedd Arloesi yn cael ei rannu gydag awdurdodau lleol a chyreff cymunedol ledled Cymru, a hyrwyddo manteision y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth;
- cefnogi awdurdodau lleol a chymunedau eraill sy'n dymuno mabwysiadu'r ymagwedd Ardaloedd Arloesi.

Y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol

12. Bydd y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol arfaethedig yn hanfodol i sicrhau yr ymgysylltir a rhanddeiliaid allweddol, gan fabwysiadu ymagwedd strategol, rhannu dysgu a chadw'r momentwm i fynd. Rhagwelir y bydd y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol:

- yn grŵp bychan o randdeiliaid fydd a'r arbenigedd a'r gallu i ddylanwadu ar strategaeth genedlaethol a chyflawni lleol;
- yn cwrdd tair neu bedair gwaith y flwyddyn;
- yn ymgysylltu â grŵp ehangach o randdeiliaid yn rheolaidd, er enghraifft drwy gynhadledd flynyddol a gweithdai llai o faint; ac
- yn adrodd i'r Gweinidog yn flynyddol.

Casgliadau

13. Mae trechu tlodi yn un o bedair blaenoriaeth allweddol y Prif Weinidog ar gyfer Llywodraeth Cymru gyfan.

14. Mae'r Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion sydd â chyfrifoldeb dros ddiwylliant, addysg a sgiliau, llywodraeth leol, cymunedau a threchu tlodi, oll wedi cymryd diddordeb mawr yn y gwaith o lunio'r adroddiad, gan gwrdd yn rheolaidd i drafod.

15. I fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wneud gwahaniaeth i fywydau'r bobl fwyaf difreintiedig, bydd angen arweiniad a chefnogaeth:

- yn genedlaethol, gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r sefydliadau cenedlaethol; ac
- yn lleol, gan awdurdodau lleol, partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac ysgolion, gan weithio ar y cyd â'r sefydliadau cenedlaethol.

16. Mae gwireddu'r weledigaeth a nodir yn yr adroddiad Diwylliant a Thlodi yn dasg sy'n siŵr o gymryd amser, ond mae'r camau a nodir yn yr ymateb i'r adroddiad yn rhoi proses ar waith er mwyn gwneud hynny.

Partneriaid Cyflawni Arweiniol – Cynnydd ac Ymrwymadau at y Dyfodol

Mae'r amryw bartneriaid sy'n rhan o roi adroddiad Diwylliant a Thlodi ar waith wedi ymrwmo i arwain ar yr argymhellion sydd fwyaf perthnasol iddynt hwy. I fod yn gwbl eglur, nodir yr argymhellion sy'n berthnasol i bob partner isod, gan ddechrau gyda'r timau amrywiol yn Llywodraeth Cymru sy'n cydweithio i wireddu'r adroddiad.

Llywodraeth Cymru

Cadw

Mae Cadw wedi:

- | | |
|--|-----------------|
| • sefydlu partneriaeth gyda <i>Kids in Museums</i> i ddarparu gweithgareddau ar nifer o'i safleoedd, gan gynnwys Cricieth, Harlech a Segontium ar Ddiwrnod Meddiannu Amgueddfeydd ym mis Tachwedd 2014 | Argymhelliad 1 |
| • yn ei Lythyr Cylch Gwaith 2014-15, mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi ymrwmo i wneud ei raglen yn gydnaws â'r gwaith o wireddu <i>Diwylliant a Thlodi</i> . | Argymhelliad 4 |
| • gwneud cais llwyddiannus am gyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect archaeoleg cymunedol i bobl ifanc, gan ddatblygu'r Fframwaith Archaeoleg Cymunedol. | Argymhelliad 23 |
| • cynhyrchu Cynllun Gweithredu Strategol er mwyn i Fannau Addoli allu cefnogi gwaith i adfywio ardaloedd lleol; a | Argymhelliad 27 |
| • defnyddio Grantiau Adeiladau Hanesyddol fel hwb i sicrhau cyfleoedd am hyfforddiant ym maes amrywiaeth o sgiliau traddodiadol. | |

Bydd Cadw yn:

- | | |
|--|-----------------|
| • arwain cydweithio â <i>Kids in Museums</i> ar ran y sector amgylchedd hanesyddol, ac mewn cydweithrediad â CyMAL. | Argymhelliad 1 |
| • hyrwyddo cyfranogiad yn y gymuned, a'i chapasiti, drwy'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol. | Argymhelliad 4 |
| • yn amodol ar adnoddau, cyfrannu at gynigion am Ysgolion Treftadaeth / clystyrau Cynefin mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol. | Argymhelliad 22 |
| • Cyflawni prosiect Archaeoleg Gymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri i gael pobl ifanc i ymwneud â'u treftadaeth a datblygu sgiliau ac ymddygiadau sy'n cyfrannu at gyflogadwyedd. | Argymhelliad 23 |

<ul style="list-style-type: none"> • Ailedrych ar y cynigion tymor byr a'r cynigion tymor hir yng nghynllun gweithredu <i>Skill Summit</i> 2012 fel rhan o archwiliad sgiliau. 	Argymhelliad 24
<ul style="list-style-type: none"> • Ehangu ymhellach weithgaredd gwirfoddoli i gynyddu faint o ymgysylltu a wneir gyda chymunedau lleol mewn detholiad o safleoedd Cadw perthnasol. 	Argymhelliad 25
<ul style="list-style-type: none"> • arwain trafodaethau gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog ar rôl bosibl adeiladau hanesyddol ym maes adfywio a chyfleoedd hyfforddiant; • parhau i weithredu ei Gynllun Gweithredu Strategol o ran Mannau Addoli; a • targedu cyllid grant cyfalaf at adeiladau hanesyddol a all ddarparu buddion sylweddol a chyfleoedd hyfforddiant. 	Argymhelliad 27

Llywodraeth Lleol a Chymunedau

Bydd y Tîm Cymunedau a Threchu Tlodi yn:

<ul style="list-style-type: none"> • trefnu, gan gysylltu â chydweithwyr yn yr Adran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, i wybodaeth am bwyntiau cyswllt sefydliadau diwylliannol ac arweinwyr Cymunedau yn Gyntaf i gael ei rhannu. 	Argymhelliad 6
<ul style="list-style-type: none"> • ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i helpu i hyrwyddo lleoliadau/cyfnewidiadau rhwng Cymunedau yn Gyntaf a staff cyrff diwylliannol. Er enghraifft, drwy gynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau canllaw yn y dyfodol. 	Argymhelliad 7
<ul style="list-style-type: none"> • gan weithio mewn partneriaeth â chyrff diwylliannol, datblygu pecyn o ddeunyddiau dysgu, wedi'u cefnogi gan raglenni hyfforddiant pwrpasol, ar gyfer trefnwyr cymunedol, er mwyn cynorthwyo eu hymgysylltiad â diwylliant a sicrhau bod y rhain i gyd ar gael drwy un porthol. 	Argymhelliad 8
<ul style="list-style-type: none"> • tynnu sylw clystyrau Cymunedau yn Gyntaf at y posibilrwydd o gynnwys gweithgareddau a phrosiectau diwylliannol yn eu Cynlluniau Cyflawni a'u ceisiadau am gyllid. 	Argymhelliad 11

Bydd y Tîm Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn:

<ul style="list-style-type: none"> • chwilio am ffyrdd i ymestyn gweithgareddau cyfoethogi diwylliannol, a'u cynnwys yn y broses o gefnogi canlyniadau dysgu ar draws rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, gan gynnwys drwy drafod arfer da cyfredol gyda'u partneriaid cyflawni. 	Argymhelliad 12
---	-----------------

CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru

Mae CyMAL wedi:

- | | |
|---|-----------------|
| • dyfarnu £1 miliwn i foderneiddio 9 llyfrgell gyhoeddus ychwanegol ledled Cymru yn 2014-15. | Argymhelliad 3 |
| • comisiynu adolygiadau o ddarpariaeth llyfrgelloedd lleol ac amgueddfeydd lleol yng Nghymru i ystyried modelau cyflawni at y dyfodol, gan gynnwys cydweithio ar draws ffiniau. | Argymhelliad 9 |
| • cyflwyno cam peilot prosiect Pob Plentyn yn Aelod o Lyfrgell i gofrestru pob plentyn Blwyddyn 4 o fis Mawrth hyd fis Mehefin 2014 gyda chwech awdurdod lleol yn cymryd rhan. | Argymhelliad 13 |
| • Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddwyd bod menter Cymunedau 2.0 yn cael ei ehangu i bedwar awdurdod lleol ychwanegol, gan eu galluogi i weithio mewn partneriaeth â phob un o'r 22 gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus i hyrwyddo cynhwysiant digidol. Ar hyn o bryd, mae rhaglen Cymunedau 2.0 yn cael ei gwerthuso er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer gweithredu'r rhaglen yn y dyfodol. | Argymhelliad 26 |

Bydd CyMAL yn:

- | | |
|--|----------------|
| • parhau ei bartneriaeth â <i>Kids in Museums</i> yn 2014-15 a'i gefnogaeth i Ddiwrnod Meddiannu Amgueddfeydd ac yn parhau i chwilio am ffyrdd i ehangu'r model i gynnwys sectorau eraill gan gynnwys llyfrgelloedd, archifau, ac, drwy drafod gyda Cadw, yr amgylchedd hanesyddol; a | Argymhelliad 1 |
| • hyrwyddo camau effeithiol i hybu arfer da a chyfranogiad yng ngweithgareddau craidd amgueddfeydd ac yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion, er enghraifft drwy ddefnyddio'r model 'Meddiannu Amgueddfeydd' a ddatblygwyd gyda <i>Kids in Museums</i> a Phaneli Ieuencid. | |
| • parhau â'i Raglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol yn 2015-16. Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn dyrannu £1 miliwn arall i'r rhaglen hon; a | Argymhelliad 3 |
| • chwilio am ffynonellau ychwanegol o gyllid er mwyn estyn hyn i amgueddfeydd lleol. | |
| • parhau i bwysleisio pwysigrwydd mynediad i bawb yn llythyrau cylch gwaith Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac yn ei strategaethau ar gyfer sicrhau presenoldeb unigolion a'r gymuned. | Argymhelliad 4 |
| • atgyfnerthu arferion da ym maes ehangu mynediad drwy raglenni sicrhau ansawdd sy'n bodoli eisoes, megis rhaglenni achredu a hawliau craidd Safonau Llyfrgelloedd | Argymhelliad 5 |

Cyhoeddus Cymru, a chefnogaeth strategol i'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, er enghraifft hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr.

- datblygu argymhellion yr Adolygiadau Panel o Arbenigwyr a'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol mewn llyfrgelloedd yng Nghymru, er mwyn sicrhau cydweithio a datblygu gweledigaeth strategol radical i sicrhau bod cymunedau sy'n cael eu cau allan yn cadw mynediad i wasanaethau llyfrgelloedd ac amgueddfeydd o safon. Argymhelliad 9
- ehangu prosiect Pob Plentyn yn Aelod o Lyfrgell i gynnwys 10 awdurdod lleol ychwanegol erbyn diwedd 2014-2015, a chytuno ar ddarpariaeth i Gymru gyfan erbyn diwedd 2015-16. Byddwn hefyd yn archwilio opsiynau eraill i hyrwyddo ac ehangu cwmpas y cynllun mewn ardaloedd difreintiedig a gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau i hyrwyddo Her Ddarllen yr Haf, Dechrau Da a mentrau darllen eraill. Argymhelliad 13
- Gweithio gydag asiantaethau partner ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru i sicrhau bod llyfrgelloedd cyhoeddus yn parhau i ddarparu hyfforddiant TGCh a mynediad i'r rhyngwyd am ddim, a sicrhau nad yw pobl yn ein cymunedau tlotaf ac unigolion yn cael eu hanfanteisio ymhellach wrth i *Universal Credit* ac *Universal Jobmatch* gael eu darparu fwy fwy ar-lein yn bennaf. Argymhelliad 26

Addysg a Sgiliau

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi:

- cyhoeddi canllawiau'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer 2014-15 sy'n atgyfnerthu'r angen i gynnwys cymunedau yng ngwaith ysgolion a chynnwys rhieni yn nysgu eu plant. Mae gweithgareddau diwylliannol yn un o'r ffyrdd y gall y gymuned ymwneud ag ysgolion. Argymhelliad 11
- darparu cymorth cyllidol ar gyfer ystod fechan o raglenni sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifanc. Mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio'n arbennig ar dargedu cymorth at gymunedau difreintiedig, er enghraifft ysgolion sydd â chyfran uchel o blant yn derbyn pryddau am ddim. Mae'r cyswllt gyda llyfrgelloedd yn elfen bwysig ar y cynlluniau a weithredir gan 'Booktrust Cymru' a Chyngor Llyfrau Cymru. Mae'r holl raglenni'n ddarostyngedig i werthusiad ac adolygiad parhaus, gyda newidiadau i'r ddarpariaeth yn cael eu gwneud lle y bo'n briodol, i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian. Mae cynlluniau 'Booktrust Cymru' a Chyngor Llyfrau Cymru yn gynlluniau sydd wedi eu sefydlu ers meitin ac yn gyfnerthedig. Serch hynny, mae proses barhaus i ddatblygu ffocws y Argymhelliad 14

<p>ddarpariaeth. Yn ystod 2014-15, mae elfen Her Ddarllen yr Haf ar raglen Cyngor Llyfrau Cymru wedi ei hehangu i ddarparu mwy o gymorth ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd plant, ac mae prosiect peilot newydd, 'Premier League Reading Stars Cymru', wedi ei lansio i helpu gyda llythrennedd bechgyn; a</p> <ul style="list-style-type: none"> • gofyn i ddarparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned dargedu cyllid Llywodraeth Cymru yn 2014-15 at wella Rhifedd Oedolion, Llythrennedd Oedolion, Saesneg i Siaradwyr leithoedd Eraill a Llythrennedd Digidol. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â nod Llywodraeth Cymru o drechu tlodi a helpu mwy o bobl i gael gwaith. 	
<ul style="list-style-type: none"> • gofyn i Estyn gynnal adolygiadau arfer gorau ym maes y celfyddydau creadigol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan ddechrau yn ystod y flwyddyn academaidd 2014-15. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ystyriaeth o sut y mae ysgolion yn defnyddio partneriaethau gyda sefydliadau diwylliannol i wella darpariaeth. 	Argymhelliad 15
<ul style="list-style-type: none"> • cyhoeddi, ym mis Gorffennaf 2014, y strategaeth amddifadedd 'Ailysgrifennu'r Dyfodol'. Mae dysgu y tu allan i'r ysgol yn rhan o'r ddogfen ac mae ymgysylltu â'r gymuned yn un o bedair prif thema. Mae'r strategaeth yn argymhell cyfres o gamau - gan gynnwys gweithgareddau diwylliannol, ynghyd a gweithgareddau chwaraeon, a chlybiau astudio pynciol (ee. mathemateg) a chyffredinol. Mae ymrwymiad yn y strategaeth i gyhoeddi canllawiau ymarferol ar ymyraethau celfyddydol a diwylliannol effeithiol sy'n manteisio i'r eithaf ar wariant Grant Amddifadedd Disgyblion. 	Argymhelliad 16
<ul style="list-style-type: none"> • comisiynu'r Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol ac asesiad o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4, ac wedi cadarnhau bod adroddiad y Farwnes Andrews yn cael ei ystyried fel rhan o'r dystiolaeth a gyflwynwyd. 	Argymhelliad 17
<ul style="list-style-type: none"> • cynnwys, ym Magloriaeth Cymru, dair 'Her' a fydd yn gyfle i weithgareddau diwylliannol – ynghyd â mathau eraill o weithgaredd - i gael eu defnyddio fel prosiectau a chyfleoedd eraill i ddysgwyr. Mynychodd nifer o sefydliadau diwylliannol y gweithdy dau ddiwrnod a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2014 i ddatblygu'r Heriau hyn. 	Argymhelliad 18
<ul style="list-style-type: none"> • comisiynu tair astudiaeth achos fideo ar gyfer gwefan Dysgu Cymru, gan gynnwys prosiectau amgueddfa, opera a drama. 	Argymhelliad 21
<ul style="list-style-type: none"> • diwygio Bagloriaeth Cymru ar gyfer ei dysgu o fis Medi 2015 ymlaen. Yn unol ag argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau, byddwn yn 'annog mabwysiadu Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion ar gyfer disgyblion 14 i 16 oed ac ysgolion a cholegau ar gyfer disgyblion 16 i 19'. Mae'r 	Argymhellion 25

cymhwyster diwygiedig yn cynnwys Her Gymunedol orfodol, a fydd yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned, yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol. Bydd y disgwyliad y bydd bron bob dysgwr yn gwneud Bagloriaeth Cymru yn cyfrannu at strategaeth gwirfoddoli diwylliannol genedlaethol wrth i ddysgwyr gynnwys ongl ddiwylliannol yn yr her – er enghraifft, gweithio gyda Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu gwmni theatr lleol.

Bydd yr Adran Addysg a Sgiliau yn:

- | | |
|---|-----------------|
| <ul style="list-style-type: none"> cynhyrchu dogfen ganllaw i ysgolion ar ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yng nghyd-destun gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol, yn dilyn ymrwymiad o fewn 'Ailysgrifennu'r Dyfodol' i gyhoeddi canllawiau ymarferol ar ymyraethau celfyddydol a diwylliannol effeithiol sy'n gwneud y mwyaf o wariant y Grant Amddifadedd Disgyblion. | Argymhelliad 11 |
| <ul style="list-style-type: none"> diwygio'r polisi ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Caiff y polisi newydd ei gyhoeddi yn 2015. | Argymhelliad 14 |
| <ul style="list-style-type: none"> ystyried canlyniadau ac unrhyw argymhellion yn adolygiadau Estyn o'r celfyddydau creadigol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. | Argymhelliad 15 |
| <ul style="list-style-type: none"> cyhoeddi adroddiad cynnydd o ran 'Ailysgrifennu'r Dyfodol' ym mis Mehefin 2015. Mae ymrwymiad yn y strategaeth i gyhoeddi canllawiau ymarferol ar ymyraethau celfyddydol a diwylliannol effeithiol sy'n cael y mwyaf o wariant y Grant Amddifadedd Disgyblion. | Argymhelliad 16 |
| <ul style="list-style-type: none"> ystyried cynnwys mwy o weithgareddau diwylliannol / treftadaeth o fewn Cyfnod Allweddol 3 yng ngoleuni adroddiad yr Athro Donaldson, sydd ar y gweill. | Argymhelliad 17 |
| <ul style="list-style-type: none"> treialu 'Heriau' Bagloriaeth Cymru o fis Medi 2014 yn barod ar gyfer eu cyflwyno yn 2015. Bydd CBAC yn sicrhau ansawdd pob Her ac yn gweithio'n agos gyda sefydliadau allanol i ddatblygu heriau newydd lle bo hynny'n briodol. | Argymhelliad 18 |
| <ul style="list-style-type: none"> datblygu ymagwedd at ddatblygu proffesiynol effeithiol yn seiliedig ar egwyddorion dysgu ar y cyd ac arfer myfyriol. Fe wnawn ni archwilio sut y gellir defnyddio'r ymagwedd hon fel sail ar gyfer llunio fframwaith datblygu proffesiynol parhaus sy'n nodi sut i sicrhau bod gan ymarferwyr y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddefnyddio'r celfyddydau i helpu i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol. | Argymhelliad 20 |
| <ul style="list-style-type: none"> darparu cefnogaeth a chyngor i gyrff diwylliannol wrth ailffocysu eu deunyddiau dysgu, er mwyn sicrhau safon a sicrhau eu bod yn berthnasol; ac | Argymhelliad 21 |

- archwilio cynnwys a defnyddioldeb porthol addysg greadigol a diwylliannol, wedi'i integreiddio â Hwb, sef y plattform dysgu ar gyfer Cymru gyfan, er mwyn gwella'r ffordd y cyfathrebir yr hyn a gynigir yn ddiwylliannol i ysgolion, er mwyn darparu mynediad i adnoddau o safon uchel ac enghreifftiau o arfer gorau, ac er mwyn cefnogi athrawon drwy letya adnoddau dysgu ac addysgu a ddatblygir gan gyrff creadigol a diwylliannol.
- targedu cyllid tuag at bobl 16 i 24 oed, ac i mewn i'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Prentisiaethau Lefel Uwch (Lefel 4 ac uwch); gan sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn gallu datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fynd ymlaen i'w dewis yrfa, a dilyn y llwybr hwnnw i lefelau uwch o ddysgu;
- parhau i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth prentisiaethau ar gyfer pobl ifanc drwy ein Gwasanaeth Paru Prentisiaethau. Hyn, yn dal i fod, yw'r prif fecanwaith i gefnogi pobl ifanc i ddod o hyd i opsiwn gyrfa hyfyw, lle gallant ennill arian a dysgu ar yr un pryd; a
- fel rhan o'n strategaeth farchnata a chyfathrebu ehangach, fe wnawn fwy i hyrwyddo'r llwybr galwedigaethol hwn ymysg cyflogwyr a rhanddeiliaid yn y sector Creadigol a Diwylliannol. Gan weithio'n agos â'r Cynghorau Sgiliau Sector perthnasol a rhanddeiliaid allweddol eraill, gallwn bennu a, lle y bo'n briodol, ymateb i unrhyw fylchau sylweddol o ran sgiliau yn y sector; a chael dealltwriaeth well o lefelau'r galw am rai meysydd galwedigaethol. Gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a'n Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu ehangach, byddwn yn annog pobl ifanc i ymgymryd â chyflogaeth sy'n gysylltiedig a chyfleoedd prentisiaeth.

Argymhelliad 25

Trafnidiaeth

Bydd Adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn:

- sicrhau y gofynnir i'r Panel Ymgynghori a Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus ystyried y rhwystrau i safleoedd a digwyddiadau diwylliannol ac adrodd i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gydag argymhellion am sut y gellir mynd i'r afael â'r mater hwn.

Argymhelliad 2

Y Sector Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth - Cyrff Arweiniol

Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi:

- | | |
|--|-----------------|
| • sefydlu Camau Creadigol, rhaglen ddatblygu a chyllido ar gyfer cymunedau a chyrrff sy'n teimlo eu bod yn cael eu hallgáu o, neu eu hatal rhag, cael cyllid gan Gyngor y Celfyddydau. | Argymhelliad 4 |
| • datblygu ymagwedd newydd, o'r enw Syniadau: Pobl: Lleoedd, i hwyluso'r gwaith o adfywio cymunedau a lleoliadau | Argymhelliad 5 |
| • datblygu'r rhaglen 'Momentwm' yn ngoleuni'r hyn a ddysgwyd gan elfen gelfyddydol rhaglen Cyrraedd y Nod; a | Argymhelliad 19 |
| • sefydlu rhwydwaith lleol, ond ledled Cymru, o gyrff celfyddydol cymunedol, yn gweithredu fel actifyddion diwylliannol yn eu hardaloedd. | |
| • comisiynu pecyn cymorth ymarferol i gefnogi athrawon ac artistiaid i ddefnyddio'r celfyddydau i wella safonau llythrennedd a rhifedd. | Argymhelliad 21 |

Bydd Cyngor y Celfyddydau yn:

- | | |
|---|----------------------|
| • parhau i roi ar waith fesul cam ei raglen datblygu'r celfyddydau sy'n ystyriol o deuluoedd; a | Argymhelliad 1 |
| • parhau i bwysleisio yn ei raglen gyllido bod cyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chyfranogwyr ehangach ac mwy amrywiol yn flaenoriaeth. | |
| • parhau i hyrwyddo'r egwyddor bod cyrrff cynaliadwy a chydnerth yn rhan o'r gymuned leol a chyflwyno hyfforddiant datblygu, gam fesul cam. | Argymhellion 4 a 5 |
| • Gwerthuso a rhoi ar waith gynllun llawn i ddilyn 'Momentwm'. | Argymhelliad 19 |
| • gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion Adolygiad y Celfyddydau mewn Addysg. | Argymhellion 20 a 21 |

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi:

- | | |
|--|----------------|
| • sefydlu cydweithrediad strategol gydag Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Wrecsam i ddarparu mynediad lleol i'r casgliadau cenedlaethol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, a chydweithrediad gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Choleg Merthyr; a | Argymhelliad 5 |
|--|----------------|

- wedi datblygu gwasanaethau blaengar digidol am ddim i alluogi nifer fwy o bobl i gael mynediad at ei hadnoddau diwylliannol cyfoethog.

Bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn:

- | | |
|---|-----------------|
| <ul style="list-style-type: none"> • pennu ffyrdd eraill o weithio'n rhagweithiol gyda chynulleidfaoedd ifanc i helpu i siapio gwasanaethau a rhaglenni, ac archwilio dichonoldeb addasu'r model 'Meddiannu Amgueddfeydd' a ddatblygwyd gyda <i>Kids in Museums</i>. | Argymhelliad 1 |
| <ul style="list-style-type: none"> • cefnogi'r iaith Gymraeg ac amrywiaeth cymunedau Cymru drwy ei ddaliadau dogfennol Gymraeg, Saesneg a nifer o ieithoedd eraill y byd; a • drwy bartneriaeth ffederal Casgliad y Werin, parhau i ddefnyddio technoleg ddigidol i ymgysylltu cymunedau ledled Cymru gyda'u diwylliant a'u treftadaeth. | Argymhelliad 4 |
| <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod partneriaethau strategol a lleol presennol yn cydweithio'n effeithiol gyda grwpiau cymunedol lleol. | Argymhelliad 5 |
| <ul style="list-style-type: none"> • parhau i ddatblygu adnoddau dysgu priodol ac effeithiol, wedi'u teilwra i'r cwricwlwm, a'u darparu ar gyfer ymwelwyr, gweithgareddau allgymorth ac ar-lein; a • datblygu ymhellach fentrau allgymorth addysgol megis mynd ag enghreifftiau o gasgliad celf y Llyfrgell Genedlaethol i mewn i ysgolion. | Argymhelliad 21 |
| <ul style="list-style-type: none"> • rhoi cymorth i fentrau gwirfoddoli diwylliannol priodol yn y Llyfrgell Genedlaethol ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus mewn lleoedd eraill yng Nghymru, a bwrw ymlaen â chynllun i ddatblygu prentisiaethau mewn meysydd lle mae diffyg sgiliau, er enghraifft ym maes cadwraeth. | Argymhelliad 25 |

Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Cymru wedi:

- | | |
|--|----------------|
| <ul style="list-style-type: none"> • ar ôl profi ffyrdd o weithio gyda fforymau ieuenctid yn Sain Ffagan, a gweld bod hynny'n llwyddiannus, cael cyllid i sefydlu <i>Panelli Cynghori o Lysgenhadon Ifanc</i> ar safle pob amgueddfa genedlaethol. Aelodau'r paneli hyn fydd cynrychiolwyr o amrywiaeth o gefndiroedd ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Eu cylch gwaith fydd siapio cynnwys, dyluniad a chyflawniad arddangosfeydd a rhaglenni, a chynghori'r Amgueddfa ar ffyrdd o ddeall anghenion pobl ifanc yn well; a | Argymhelliad 1 |
|--|----------------|

<ul style="list-style-type: none"> • darparu rhaglen sylweddol o ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth drwy ei darpariaeth i ysgolion, gan gynnwys ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ysgolion sydd â nifer fawr o blant yn derbyn prydau ysgol am ddim. 	
<ul style="list-style-type: none"> • sefydlu cydweithrediad strategol gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Wreccsam i ddarparu mynediad lleol i'r casgliadau cenedlaethol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, yn ogystal â phartneriaethau strategol ledled Cymru. 	Argymhelliad 5
<ul style="list-style-type: none"> • mewn cydweithrediad â Dinas a Sir Abertawe, cyd-gadeirio fforwm y bartneriaeth dysgu creadigol newydd yn Abertawe, gan gyflawni'r rôl y cynigiodd y Farwnes Andrews y byddai Rhwydweithiau Creadigol a Diwylliannol yn ei gwneud. 	Argymhelliad 10
<ul style="list-style-type: none"> • sicrhau cyllid yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol ar gyfer gwaith ar becyn cymorth rhifedd ddwyieithog ar gyfer ysgolion cynradd. 	Argymhelliad 21
<ul style="list-style-type: none"> • darparu arweiniad i'r sector diwylliannol drwy gynnal seminar ymchwil a pharatoi a dosbarthu'r adroddiad ddaeth yn sgil hynny, sef <i>Cyfranogi Diwylliannol i Blant a Phobl Ifanc sy'n Profi Tlodi</i>, a sefydlu'r grŵp llywio <i>Cyfranogiad Diwylliannol a Thlodi</i> i ddadlau o blaid gwerth cyfranogiad ym maes diwylliant, y celfyddydau a threftadaeth fel ffordd o leddfu effeithiau tlodi a gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc. 	Argymhelliad 32

Bydd Amgueddfa Cymru yn:

<ul style="list-style-type: none"> • parhau i defnyddio model <i>Kids in Museums</i> a chynnal diwrnodau 'Meddiannu Amgueddfeydd', ynghyd â mentrau eraill i hyrwyddo gweithio ar y cyd a chyfranogiad ym mhob maes o waith amgueddfaol; a • parhau i gynnig cyfleoedd dysgu am ddim i ysgolion sydd â chyfran uchel o blant yn cael prydau ysgol am ddim. 	Argymhelliad 1
<ul style="list-style-type: none"> • drwy ei saith safle yng Nghymru, parhau i ddatblygu cydberthnasau cymunedol a phartneriaethau ar draws y sector, gyda chyfranogi ac ymgysylltu fel blaenoriaethau strategol craidd; • parhau i gyflawni '<i>Trawsnewid Dyfodol Plant</i>', ei strategaeth i gefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol i blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn tlodi, ledled Cymru; • parhau i ddatblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru drwy gyflawni prosiect <i>Creu Hanes</i> fel amgueddfa gyfranogol gyda chyfranogiad gan y gymuned fel dull datblygu canolog yn cynnwys partneriaid a chymunedau, yn lleol ac yn genedlaethol; a • drwy bartneriaeth ffederal Casgliad y Werin, parhau i ddefnyddio technoleg ddigidol i gysylltu cymunedau ledled Cymru gyda diwylliant a threftadaeth. 	Argymhelliad 4

<ul style="list-style-type: none"> sicrhau bod partneriaethau strategol a lleol presennol yn cydweithio'n effeithiol gyda grwpiau cymunedol, ac yn archwilio'r potensial pellach am rannu prosiectau mewn cymunedau lleol. 	Argymhelliad 5
<ul style="list-style-type: none"> parhau i ddatblygu ei waith partneriaeth llwyddiannus gyda rhaglen Dechrau'n Deg yn lleol ac yn genedlaethol ar draws ei hamgueddfeydd ac mewn cymunedau. 	Argymhelliad 12
<ul style="list-style-type: none"> parhau i ddatblygu adnoddau dysgu priodol ac effeithiol, wedi'u teilwra i'r cwricwlwm, a darparu'r rhain i ymwelwyr, ar gyfer gweithgareddau allgymorth ac ar-lein. 	Argymhelliad 21
<ul style="list-style-type: none"> rhoi ar waith fesul cam y model partneriaeth 3ydd sector, a ddatblygwyd drwy raglen 'Ein Hamgueddfa' a ariannwyd gan Sefydliad Paul Hamlyn, er mwyn newid diwylliant ym maes datblygu sgiliau ac arferion gweithio mewn perthynas â gwirfoddoli. 	Argymhelliad 25
<ul style="list-style-type: none"> Parhau i arwain ar yr agenda ymchwil ym maes cyfranogi diwylliannol, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. 	Argymhelliad 32

Strwythurau Cyflawni Newydd

Y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol

Bydd yr Adran Diwylliant a Chwaraeon yn sicrhau bod yr argymhellion ynghylch y fframwaith strategol yn cael eu rhoi ar waith. Bydd y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol arfaethedig (argymhelliad 29) yn ganolbwynt i'r gwaith hwn.

Bydd y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru;
- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Amgueddfa Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Un cynrychiolydd, neu fwy, o Ardaloedd Arloesi;
- Yn dilyn ymgynghoriad â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol sydd â phrofiad o weithredu ar lawr gwlad yn y maes.

Byddai croeso i Gronfa Dreftadaeth y Loteri fod yn bresennol i arsylwi a derbyn papurau.

Adran Diwylliant Llywodraeth Cymru fydd yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y bwrdd.

Bydd rhaglen waith y Bwrdd yn cynnwys yr argymhellion canlynol mewn perthynas â'r fframwaith strategol:

- | | |
|---|-----------------|
| <ul style="list-style-type: none"> Llywodraeth Cymru, cyrff celfyddydol a'r sector gwirfoddol i ymchwilio i'r posibilrwydd o strategaeth gwirfoddoli diwylliannol genedlaethol | Argymhelliad 25 |
|---|-----------------|

Caiff gwirfoddoli ei ehangu mewn dwy ffordd: (a) gan bartneriaid diwylliannol cenedlaethol a (b) o fewn Ardaloedd Arloesi. Caiff y posibilrwydd o sefydlu strategaeth genedlaethol ei archwilio yn ngoleuni'r ddau ffactor uchod.

- Hyrwyddo cyfraniad y sector diwylliant mewn perthynas ag ystod eang o amcanion polisi. Argymhelliad 28
- Cyrff cyllido i sefydlu rhwydwaith gwybodaeth i bennu blaenoriaethau strategol a rennir a hwyluso cyllido rhaglenni'n fwy strategol er mwyn cymell cydweithio. *Bydd hyn yn un o swyddogaethau'r Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol.* Argymhelliad 30
- Creu rhwydwaith dysgu i gyrff celfyddydol. Argymhelliad 31
- Adolygu, a rhannu, ymchwil cyfredol i fynediad i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, a chyfranogiad ynddynt, ac ymchwil i effaith yr ymgysylltiad. Argymhelliad 32
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y sector celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Argymhelliad 33

Yr Ardaloedd Arloesi

Bydd yr Ardaloedd Arloesi yn cyflawni'r argymhellion canlynol, neu'n cyfrannu atynt:

Rhwydweithiau Cymunedol a Diwylliannol i gael eu datblygu, i gysylltu cyrff cymunedol a diwylliannol ar y lefel leol, er mwyn rhannu gwybodaeth ac adnoddau a chynllunio mentrau i fynd i'r afael a'r diffyg diwylliannol o fewn cymunedau.

Argymhelliad 10

Caiff hyn ei gyflawni drwy sefydlu'r Ardaloedd Arloesi

Cyrff diwylliannol i archwilio sgiliau a dosbarthu'r wybodaeth i ddangos y sgiliau ymarferol y gellir eu meithrin drwy gymryd rhan yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.

Argymhelliad 24

Bydd hyn, o bosibl, yn un o gydrannau'r fframwaith cymorth cenedlaethol ar gyfer yr Ardaloedd Arloesi. Bydd pa eitemau ddylai gael eu blaenoriaethu i'w cynnwys yn y fframwaith hwnnw yn cael ei benderfynu drwy drafodaeth gyda'r Ardaloedd Arloesi.

Llywodraeth Cymru, cyrff celfyddydol a'r sector gwirfoddol i ymchwilio i'r posibilrwydd o strategaeth gwirfoddoli diwylliannol genedlaethol

Argymhelliad 25

Caiff gwirfoddoli ei ehangu mewn dwy ffordd: (a) gan bartneriaid diwylliannol cenedlaethol a (b) o fewn yr Ardaloedd Arloesi. Caiff y posibilrwydd o sefydlu strategaeth genedlaethol ei archwilio yn ngoleuni'r ddau ffactor uchod.

Rhanddeiliaid Eraill

Cyrff celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chymunedol eraill

Yn lleol ac yn genedlaethol, bydd ystod o gyrff eraill yn y sectorau diwylliannol a chymunedol a fydd â chryn dipyn i gyfrannu i'r rhaglen hon ar ffurf arbenigedd, cyfleusterau ac adnoddau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cyrff celfyddydol rhanbarthol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Parciau Cenedlaethol a chyrff megis cymdeithasau tai. Byddai croeso i gyrff fel y rhain gyfrannu at yr Ardaloedd Arloesi.

Bydd cysylltu gweithgarwch lleol a chenedlaethol â chyfleoedd am gyllid yn bwysig. Bydd cyrff megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri a chyllidwyr eraill hefyd yn rhan bwysig o'r rhaglen.

Cynghorau Sgiliau Sector

Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cyflawni'r argymhellion canlynol, neu'n cyfrannu atynt:

...a, gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector a chyrff eraill, datblygu ymagwedd genedlaethol fwy rhagweithiol a chydlynol tuag at brentisiaethau diwylliannol er mwyn cael effaith ar strategaethau lleihau diweithdra cenedlaethol.

Argymhelliad 25

Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gweithio, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar brentisiaethau yn y sector diwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Llywodraeth Leol / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Caiff Llywodraeth Leol ei chynrychioli ar y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bydd gan awdurdodau lleol rôl allweddol ym mhob un o'r Ardaloedd Arloesi. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu'r ymagwedd at yr Ardaloedd Arloesi.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn credu bod gan fynediad at ddiwylliant rôl bwysig i'w chwarae yn yr agenda trechu tlodi. Mae'n cydnabod ac yn hyrwyddo'r rôl bwysig y mae gwasanaethau diwylliannol yn ei chwarae yn y gwaith o gynyddu'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael o fewn cymunedau, ynghyd â chynyddu profiadau, lles ac ansawdd bywyd trigolion Cymru.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn cydnabod y cysylltiadau cryfion rhwng tlodi a rhwystrau i gyfranogiad diwylliannol a mynediad at ddiwylliant. Mae'n credu bod cryfhau a gwella mynediad at ddiwylliant yn allweddol i'r gwaith o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella cyfiawnder cymdeithasol.

Er gwaethaf yr heriau anodd a'r pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol a'u cyllidebau, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y gall awdurdodau lleol Cymru ei chwarae o fewn yr agenda trechu tlodi drawsbynciol, ac mae'n croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol drwy'r rhaglen Ardaloedd Arloesi i helpu i wella bywydau yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Rhestr o Argymhellion a Phartneriaid Cyflawni Allweddol

Rhestr o Acronymau

AdAS	Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
EGTh	Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru
AC	Amgueddfa Cymru
CCC	Cyngor Celfyddydau Cymru
LIGC	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
LI.L. a Ch	Llywodraeth Lleol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru
D a Ch	Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru
SCD	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
BCD	Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol

Argymhelliad	Cyflawni'n cael ei arwain gan
1. Cyrff diwylliannol i weithredu ymagweddau i wneud eu sefydliadau'n fwy ystyriol o'r gymuned a phlant drwy fentrau megis y model 'Meddiannu Amgueddfeydd', a arloeswyd gan <i>Kids in Museums</i> .	Cadw CyMAL CCC AC
2. Llywodraeth Cymru i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i bennu datrysiadau i rwystrau y mae pobl o ardaloedd difreintiedig yn eu profi'n gysylltiedig a thrafnidiaeth o ran ymweld â safleoedd a digwyddiadau diwylliannol.	EGTh – Polisi Trafnidiaeth
3. Llywodraeth Cymru, drwy CyMAL, i barhau i gefnogi llyfrgelloedd cyhoeddus i drawsnewid i fod yn ganolfannau diwylliannol gwirioneddol i gymunedau, gan gynnwys cydleoli gyda gwasanaethau cymunedol eraill lle y bo'n briodol, ac archwilio'r posibilrwydd o ehangu'r ymagwedd hon i sectorau eraill, megis amgueddfeydd lleol.	CyMAL
4. Llywodraeth Cymru i herio'r sector diwylliannol, drwy gyfeirio strategol, cyllido, a chymorth arall, er mwyn ehangu ymdrechion i sicrhau bod eu sefydliadau wrth galon cymunedau ac i sicrhau mynediad i bawb.	Cadw CyMAL CCC LIGC AC Ardaloedd Arloesi
5. Sefydliadau diwylliannol i fod yn 'lleol' ac yn 'barhaol' drwy roi mwy o flaenoriaeth i brosiectau a rennir mewn cymunedau lleol a thrwy bennu a defnyddio lleoedd a rennir ar gyfer arddangosfeydd a gweithgareddau.	Cadw CyMAL CCC LIGC AC Ardaloedd Arloesi
6. Swyddogion Arwain Dysgu Cymunedau yn Gyntaf i gael eu gwneud yn bwyntiau cyswllt a hysbysu pobl am hynny gan rannu'r wybodaeth ag ysgolion a chyrrff cyhoeddus sy'n ceisio datblygu rhaglenni ar y cyd â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf.	LI.L. a Ch Ardaloedd Arloesi

7.	Annog cyfnewidiadau/lleoliadau byrdymor rhwng staff Cymunedau yn Gyntaf a staff cyrff diwylliannol.	LI.L. a Ch Ardaloedd Arloesi
8.	Llywodraeth Cymru a sefydliadau diwylliannol i ddatblygu pecyn cymorth o ddeunyddiau dysgu, wedi'i gefnogi gan raglenni hyfforddi pwrpasol ar gyfer trefnwyr cymunedol i gefnogi'r gwaith o ymgysylltu â diwylliant; sicrhau bod hyn i gyd ar gael o un porthol.	LI.L. a Ch
9.	Llywodraeth Cymru i gymell awdurdodau lleol i edrych ar bosibiliadau ar gyfer cymorth trawsffiniol a rhannu gwasanaethau, er enghraifft: darpariaeth amgueddfeydd, llyfrgelloedd, y celfyddydau ac archifau er mwyn galluogi mwy o ffocws ar waith cymunedol ac addysgol.	CyMAL
10.	Rhwydweithiau Cymunedol a Diwylliannol i gael eu datblygu, i gysylltu cyrff cymunedol a diwylliannol ar y lefel leol, er mwyn rhannu gwybodaeth ac adnoddau a chynllunio mentrau i fynd i'r afael â'r diffyg diwylliannol o fewn cymunedau.	D a Ch, drwy ddatblygu Ardaloedd Arloesi
11.	Llywodraeth Cymru i egluro a chyfathrebu sut y gellir defnyddio ffrydiau cyllid amddifadedd cymunedau a disgyblion orau i gyfoethogi'n ddiwylliannol, ac archwilio'r posibilrwydd o gael cyllid Cymunedau yn Gyntaf a'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni penodol o weithgareddau gan gysylltu'r gymuned ac ysgolion.	AdAS CTT
12.	Llywodraeth Cymru a chyrff diwylliannol i ymchwilio i ffyrdd o ddatblygu a sefydlu gweithgareddau cyfoethogi diwylliannol i ategu canlyniadau dysgu rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.	LI.L. a Ch Ardaloedd Arloesi AC
13.	Llywodraeth Cymru i barhau i fwrw ymlaen â'i nod o sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael bod yn aelod o lyfrgell yn awtomatig.	CyMAL
14.	Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar sut orau i gydgrynhoi a datblygu'r mentrau llythrennedd sydd eisoes yn bodoli i blant ac oedolion ledled Cymru, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig, a sut i wneud y mwyaf o gysylltiadau â chyrff diwylliannol i gyflymu a chyfoethogi'r rhaglenni hyn.	AdAS
15.	Estyn i ategu pwysigrwydd gweithgarwch diwylliannol yn ystod y diwrnod ysgol a'r tymor ysgol, a'r tu allan iddynt; tynnu sylw at arferion da, a chwilio am ffyrdd positif o annog a galluogi ysgolion i gydweithredu mwy â chyrff diwylliannol.	AdAS
16.	Llywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd mwy effeithiol o wneud diwylliant yn rhan fwy o raglenni a strategaethau dysgu y tu allan i'r ysgol.	AdAS
17.	Llywodraeth Cymru i sefydlu dull gweithredu i sicrhau bod mwy o weithgareddau sy'n ymwneud â diwylliant/treftadaeth yn cael eu cynnwys yn CA3 er mwyn ceisio mynd i'r afael â phroblem dadrithiad, a chynnwys partneriaid diwylliannol yng nghynllun y cwricwlwm a sut y'i cyflwynir.	AdAS

18.	Llywodraeth Cymru i ddatblygu cyfleoedd dinasyddiaeth ddiwylliannol fel rhan o raglen gyfoethogi Bagloriaeth Cymru.	AdAS
19.	Cyngor Celfyddydau Cymru i ailedrych ar raglen cyfranogiad yn y celfyddydau 'Cyrraedd y Nod' i gynnig gweithgareddau diwylliannol diddorol ar gyfer disgyblion 9-13 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET.	CCC
20.	Llywodraeth Cymru, consortia addysg, cyrff diwylliannol a chyrrff hyfforddi priodol i ddatblygu rhaglen DPP i'w gwneud yn bosibl i athrawon dan hyfforddiant, athrawon, a chynorthwyr addysgu werthfawrogi'n llawn effaith profiadau a gweithgareddau diwylliannol ar ddysg plant mewn perthynas â'r cwricwlwm ysgol, yn enwedig o ran llythrennedd, i gynyddu lefelau cymhelliant a llwyddiant academaidd.	AdAS CCC
21.	Llywodraeth Cymru a chyrrff diwylliannol i gydweithio i gydgrynhoi ac ailwampio'r deunyddiau dysgu i sicrhau bod y cysylltiad â llythrennedd, rhifedd a dysg yn fwy cyffredinol yn glir, a'u darparu drwy un porthol sy'n gysylltiedig â Hwb.	AdAS CCC AC LIGC
22.	Llywodraeth Cymru i gydweithio â'r sector treftadaeth a diwylliant i dreialu clystyrau <i>Cynefin</i> , wedi'u fodelu ar y fenter <i>Heritage Schools</i> yn Lloegr, a fydd yn gosod treftadaeth leol wrth wraidd y cwricwlwm.	Cadw, drwy drafodaeth ag AdAS
23.	Sector yr Amgylchedd Hanesyddol i ddatblygu egwyddorion y Fframwaith Archaeoleg Cymunedol a ddatblygwyd gan Cadw, a defnyddio asedau diwylliannol a hanesyddol eraill mewn cymunedau lleol fel amgueddfeydd ac archifau lleol, er mwyn sefydlu egwyddor Cynefin yn y gymuned ehangach.	Cadw Ardaloedd Arloesi
24.	Cyrff diwylliannol i archwilio sgiliau a dosbarthu'r wybodaeth sy'n dangos y sgiliau ymarferol y gellir eu cael drwy gymryd rhan yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.	BCD Cadw Ardaloedd Arloesi
25.	Llywodraeth Cymru, cyrff diwylliannol a'r sector gwirfoddol i (a) ymchwilio i'r posibilrwydd o strategaeth gwirfoddoli diwylliannol genedlaethol; a (b) gyda'r Cyngorau Sgiliau Sector a chyrrff eraill, datblygu ymagwedd genedlaethol fwy rhagweithiol a chydlynol tuag at brentisiaethau diwylliannol er mwyn cael effaith ar strategaethau lleihau diweithdra cenedlaethol.	Gwirfoddoli: BCD, Partneriaid Diwylliannol Cenedlaethol, Ardaloedd Arloesi Prentisiaethau: SCD, Llywodraeth Cymru, Sector Diwylliannol
26.	Llywodraeth Cymru i ystyried cyfleoedd i ddatblygu ymhellach y broses o weithio mewn partneriaeth dan arweiniad Cymunedau 2.0 i godi nifer y sesiynau TGCh a ddarperir mewn llyfrgelloedd cyhoeddus a lleoliadau cymunedol ledled Cymru.	CyMAL
27.	Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog a chyrrff adfywio eraill yng Nghymru i nodi cyfleoedd i weithredu ar y cyd gan ganolbwyntio ar swyddogaeth	Cadw

	bosibl adeiladau hanesyddol wrth ddatblygu ac adfywio ardaloedd lleol, a manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion yn gynaliadwy.	
28.	Llywodraeth Cymru i drafod a hyrwyddo rôl diwylliant yn y gwaith o gefnogi ystod eang o amcanion polisi i sicrhau bod cysylltiadau cydlynol yn rhan o bolisi ar lefel genedlaethol a lefel awdurdod lleol.	D a Ch a thrwy BCD
29.	Llywodraeth Cymru i sefydlu Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol a Chymdeithasol strategol, gan gynnwys adrannau strategol cenedlaethol a chyrff diwylliannol, i gysylltu polisi diwylliannol ar draws polisi'r llywodraeth a hybu'r gwaith o weithredu'r adroddiad hwn.	D a Ch
30.	Cyrff cyllido i sefydlu rhwydwaith gwybodaeth i bennu blaenoriaethau strategol a hwyluso cyllido rhaglenni'n fwy strategol er mwyn cymell cydweithio.	BCD
31.	Cyrff diwylliannol i sefydlu rhwydwaith dysgu i hwyluso cyfnewid gwybodaeth ac arfer da ym maes mynediad a chyfranogiad.	BCD
32.	Cyrff diwylliannol, yn gweithio gyda'r sector addysg uwch a phartneriaid eraill, i gydgrynhoi a rhannu ymchwil a gwybodaeth, a phennu bylchau ar gyfer ymchwil pellach ym maes demograffeg, mynediad, cyfranogiad ac effaith cyfranogi.	BCD
33.	Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff diwylliannol i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol cyson ar gyfer sector y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth sy'n cymell ymdrech i wella lles drwy ymgysylltu pobl â phrosiectau diwylliannol yn y gymuned.	BCD